

## Cyngor Tref Llangollen Town Council.

### Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2020. Minutes of the Council Meeting held on 16<sup>th</sup> June 2020.

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr  
Cheminais, Grindley, Haddy (Maer y Dref), Hughes, Keddie, Lovelock, Lube, Mile a Richards.

**Present:** Cllrs Cheminais, Grindley, Haddy (Town Mayor), Hughes, Keddie, Lovelock, Lube, Mile and Richards.

**Mynychu:** G. Thomas (Clerc y Dref) a 4 aelod o'r cyhoedd.

**In attendance:** G. Thomas (Town Clerk). 4 members of the public.

**C/164/20**

#### **Cyhoeddiadau'r Maer.**

Cyngorodd y Maer yr Aelodau ar y sefyllfa o ran y swydd wag achlysurol ar Gyngor y Dref. Cadarnhaodd fod dau gais wedi dod i law erbyn y dyddiad cau, a chyngor y Swyddog Canlyniadau oedd na ddylid gwneud penderfyniad ffurfiol nes y gallai'r Cyngor gwrdd heb gyfyngiadau. Fodd bynnag, roedd angen penderfynu ar y dull penodi a bydd adroddiad ar y mater hwn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf. Amlinellodd y Maer hefyd rai o'r gweithgareddau yr oedd y Cyngor wedi bod yn eu cyflawni mewn ymateb i'r pandemig COFID-19 cyfredol. Ar y 12fed o Fawrth gwahoddiwyd y Maer, y Clerc a'r Swyddog Cyfleusterau i gyfarfod o glwstwr De Wrecsam o Feddygfeydd Teulu, sy'n cynnwys Meddygfa Llangollen, lle gofynnwyd i gynghorau cymunedol sefydlu Cynllun Cymydog Da ar gyfer y rhai sydd angen help a chefnogaeth. Fodd bynnag, cydnabuwyd, trwy ymdrechion Grŵp Cymorth Coronafeirws, Cyfeillion Pengwern a Foodshare Llangollen fod sylfaen o wirfoddolwyr yn bodoli eisoes a oedd yn gallu cynnig cymorth i gefnogi unigolion. O'r herwydd, penderfynodd y Cyngor gynnig cymorth o ran gweinyddu, argraffu a cheisio cymorth grant i gefnogi

#### **Mayor's Announcements.**

The Town Mayor advised Members on the position regarding the casual vacancy on the Town Council. He confirmed that two applications had been received by the closing date and the advice of the Returning Officer was that no formal decision should be made until the Town Council could meet without restrictions. However, there was a need to decide on the method of appointment and a report on this matter will be presented to the July Town Council meeting. The Town Mayor also outlined some of the activities that the Town Council had been undertaking in response to the current COVID-19 pandemic. On the 12th of March the Town Mayor, Town Clerk and Facilities Officer were invited to a meeting of the South Wrexham cluster of GP Practices, which includes the Llangollen Surgery, where community councils were asked to establish a Good Neighbour Scheme for those in need of help and support.. However, it was recognised that through the efforts of the Coronavirus Help Group, Friends of Pengwern and Foodshare Llangollen that there was an existing volunteer base that were willing, and able, to step in to support individuals. The decision was therefore taken by the Town Council to provide support in terms of administration,

gweithgareddau'r grwpiau yma. Hyd yn hyn, mae'r Cyngor wedi llwyddo cael £5,000 gan Gronfa Gymunedol Clocaenog ar gyfer Cofid-19 a £500 gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych. Yn ogystal, mae'r Cyngor ei hun wedi gwneud rhodd o £760 i'w rannu rhwng Cyfeillion Pengwern a Foodshare Llangollen. Mae'r Cyngor yn hynod falch eu bod wedi gallu helpu'r gymuned fel hyn, a diolchodd y Maer i'r holl wirfoddolwyr ac aelodau'r Cyngor sydd wedi darparu cymorth trwy ddsbarthu parseli bwyd neu gasglu presgripsiynau yn ystod y misoedd diwethaf.

printing and in seeking grant assistance to support the activities of the groups. To date the Town Council has managed to secure £5,000 from the Clocaenog Community Fund for Covid-19 and £500 from Denbighshire Voluntary Services Council. Additionally, the Town Council itself had made a donation of £760 split between Friends of Pengwern and Foodshare Llangollen. The Town Council have been very pleased to have been able to support the community in this way and the Town Mayor wished to thank the volunteers, and those Members of the Town Council, who have provided assistance through delivering food parcels or collecting prescriptions over the last few months.

**C/165/20 Ymddiheuriadau am Absenoldeb.**  
Dim.

**Apologies for Absence.**  
None

**C/166/20 Datganiadau o Fuddiant.**  
Dim.

**Declarations of Interest.**  
None.

**C/167/20 Datganiadau gan y cyhoedd.**  
Nid oedd unrhyw faterion i'w trafod dan yr eitem hon ar yr agenda.

**Statements from the public.**  
There were no matters considered under this agenda item.

**C/168/20 Cyflwyniadau.**  
Anerchodd y Rhingyll Jones o Heddlu Gogledd Cymru'r cyfarfod. Fe wnaeth y Rhingyll gydnabod ei bod yn amser rhyfedd iawn ar hyn o bryd gan mai'r flaenoriaeth ers 26 Mawrth oedd sicrhau cynnal rheoliadau Llywodraeth Cymru ar deithio. Mae gwahaniaethau amlwg erbyn hyn rhwng rheoliadau Llywodraeth Cymru a'r rhai dros y border yn Lloegr. Roedd hyn yn achos cryn gur pen ond roedd yr Heddlu'n ymdopi. Ffocws ei Swyddogion oedd siarad ag unigolion, egluro'r amrywiol reoliadau a'u hannog i wneud y peth iawn. Roedd gorfodi yn cael ei ystyried yn opsiwn terfynol, ond yn anffodus yn un a fu'n rhaid ei wneud ar sawl

**Presentations.**  
Sgt Jones of North Wales Police addressed the meeting. Sgt Jones admitted it was very strange times at the moment as the priority since the 26th of March had been on ensuring that the Welsh Assembly Government's regulations on travel were maintained. Clearly there were some differences now between the Welsh Assembly Government's regulations and those across the border in England which were causing some frustrations but were manageable. The focus of his Officers had been to engage with individuals, explain the various regulations and encourage them to do the right thing. Enforcement was regarded as a final

achlysur. O ran troseddu, yn amlwg roedd hyn wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y cyfnod cloi, - i lawr oddeutu 1/5 yr hyn a brofwyd mewn blynnyddoedd blaenorol.

Gwrthweithiwyd hyn gan fwy o gyfeiriadau at yr heddlu o enghreifftiau o dorri rheoliadau COFID-19. Yn anffodus roedd swyddogion wedi gweld cynnydd sylweddol mewn digwyddiadau iechyd meddwl hefyd, gyda nifer sylweddol o bobl yn gorfod cael eu hanfon i ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Bu cynnydd amlwg o ran gorfodaeth cyffuriau gan fod hyn yn haws i'w weld yn ystod y cyfnod cloi, ac nid oedd y defnydd na'r masnachu wedi dod i ben. Bydd gweithgareddau cysylltiedig â COFID-19 yn parhau tra bod rheoliadau mewn grym. Fodd bynnag, wrth edrych ymlaen, dywedodd y Rhingyll Jones wrth yr Aelodau fod paratodau'n cael eu gwneud gan ragweld codi cyfyngiadau ar unedau manwerthu nad ydynt yn hanfodol. O'r herwydd, roedd crynhoad o adnoddau staff yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer y prif leoliadau twristiaeth, sef Llangollen, Corwen a Betws y Coed. Roedd y Rhingyll Jones yn ffyddiog y gallai ei staff ymdopi gyda'r pwysau ychwanegol. Atebodd y Rhingyll Jones gwestiynau'r Aelodau, - sicrwydd ynghylch presenoldeb yr heddlu ar benwythnosau ac a fu unrhyw broblemau sylweddol oherwydd pobl ifanc yn y dref fel y gwelwyd ar y cyfryngau cymdeithasol. Cadarnhaodd y Rhingyll Jones ei fod yn ffyddiog y byddai digon o staff ar gael yn Llangollen yn ystod y penwythnosau, ac y byddai Shop Watch yn helpu hefyd. Dywedodd hefyd ei fod o'r farn bod pobl ifanc y gymuned wedi bod yn eithriadol o dda yn ystod yr argyfwng hwn a'u bod yn cydymffurfio ar y cyfan.

option which had unfortunately been undertaken on a number of occasions. In terms of crime clearly this had reduced significantly during the lockdown by approximately 1/5 what had been experienced in previous years. This had been countered by increased references to the police of instances of breaking COVID-19 regulations and unfortunately officers had seen a significant increase in mental health incidents with a significant number of people having to be sectioned under the Mental Health Act.

There had been noticeable progress of drug enforcement as this was more obvious during lock down and use and trafficking had not stopped. COVID-19 related activities were ongoing whilst regulations are in force. However, looking forward Sgt Jones advised Members that preparations were being made in anticipation of the lifting of restrictions on non-essential retail units and therefore concentration of staff resource was being prioritised for the main tourist towns of Llangollen, Corwen and Betws y Coed. Sgt Jones was confident with the staff compliment he had that they would be able to cope with the pressures. Sgt Jones took questions from Members which included reassurances over the police presence at weekends and as to whether there had been any significant problems from youngsters in the town as has been portrayed on social media. Sgt Jones confirmed that he was confident that there would be sufficient staff resources available in Llangollen at the weekends which would be supported by Shop Watch. He also advised that he had found that the youngsters in the community had been exceptional during this crisis and were generally compliant.

**C/169/20**

**Cofnodion y cyfarfod.**

Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd y dylid awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26.05.2020 fel cofnod cywir. Cytunodd pawb.

**Minutes of Meeting.**

It was proposed, seconded and resolved that the Chairman be authorised to sign the minutes of the meeting held on 26.05.2020 as a correct record. All agreed.

Ymunodd y Cyng. Baker â'r cyfarfod ar y ffôn.

Cllr Baker joined the meeting by telephone.

**C/170/20**

**Materion Ariannol.**

**C/170/20(a)**

Datganiad Ariannol. Derbyniwyd a nodwyd datganiad ariannol mis Mehefin.

**Financial Matters.**

Financial Statement. The financial statement for June was received and noted.

**C/170/20(b)**

Taliadau Awdurdodedig. Cyflwynwyd taliadau mis Mai (isod) i'r cyfarfod.

**Authorised Payments.**

The payments for May detailed below, were presented to the meeting.

<b>Cyflenwr</b>	<b>Taliad</b>	<b>Gros</b>	<b>TAW</b>	<b>Net</b>
<b>Supplier</b>	<b>Method</b>	<b>Gross</b>	<b>VAT</b>	<b>Net</b>
Staff CTL1/LTC1	TB/BP M2.1	£1,654.97	£0.00	£1,654.97
Staff CTL02/LTC02	TB/BP M2.2	£859.30	£0.00	£859.30
CThEM/HMRC	TB/BP M2.3	£4,049.07	£0.00	£4,049.07
Cllr Haddy	TB/BP 27	£120.00	£0.00	£120.00
Cllr Grindley	TB/BP 28	£120.00	£0.00	£120.00
Cllr Lovelock	TB/BP 29	£120.00	£0.00	£120.00
Blue Bay Laundry	TB/BP 30	£559.00	£0.00	£559.00
C J Chard	TB/BP 31	£131.52	£0.00	£131.52
PW Dallimore	TB/BP 32	£1,020.00	£170.00	£850.00
H Edwards	TB/BP 33	£756.00	£0.00	£756.00
B Jones	TB/BP 34	£50.00	£0.00	£50.00
K Manton	TB/BP 35	£77.40	£0.00	£77.40
Parish Protect	TB/BP 36	£1,759.85	£0.00	£1,759.85
Rawsons Digital	TB/BP 37	£564.46	£94.07	£470.39
G Thomas	TB/BP 38	£549.00	£0.00	£549.00
Gloves	Visa 7	£89.00	£0.00	£89.00
LogMeIn	Visa 8	£18.00	£3.00	£15.00
ACS Technology	DU/DD	£133.00	£0.00	£133.00
ACS Technology	DU/DD	£311.00	£0.00	£311.00
ACS Technology	DU/DD	£90.00	£0.00	£90.00
British Telecom	DU/DD	£90.37	£15.06	£75.31
CS Ddinbych / Denbighshire CC	DU/DD	£180.00	£0.00	£180.00
CS Ddinbych / Denbighshire CC	DU/DD	£1,097.00	£0.00	£1,097.00
Hafren Dyfrdwy	DU/DD	£454.93	£0.00	£454.93
NEST	DU/DD	£234.30	£0.00	£234.30
Nwy Prydain / British Gas	DU/DD	£54.68	£2.60	£52.08
Nwy Prydain / British Gas	DU/DD	£9.93	£0.47	£9.46
Nwy Prydain / British Gas	DU/DD	£204.02	£34.00	£170.02

Nwy Prydain / British Gas	DU/DD	£20.14	£0.95	£19.19
Nwy Prydain / British Gas	DU/DD	£5,647.53	£941.25	£4,706.28
PWLB	DU/DD	£1,444.43	£0.00	£1,444.43
S Johnston	TS/SO	£70.00	£0.00	£70.00

**C/171/20**

**Ceisiadau Cynllunio.**

**03/2020/0357 Bryn Goleu, Geufron.**

Newidiadau i adeilad garej i ffurfio uned wyliau, gosod gwaith trin pecyn a gwaith cysylltiedig.

Ystyriodd yr aelodau y cais a dyfarnu ei fod yn dderbyniol o ran cynllunio. Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd na ddylid codi unrhyw wrthwynebiad i'r cais hwn.

Cytunodd pawb

**03/2020/0364 Green Villa, Lôn Werdd.**

Paentio waliau allanol a gwaith coed allanol (cais Adeilad Rhestredig).

Ystyriodd yr aelodau y cais a dyfarnu ei fod yn dderbyniol o ran cynllunio. Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd na ddylid codi unrhyw wrthwynebiad i'r cais hwn.

Cytunodd pawb

**03/2020/0379 Tŷ Brethyn, Fron Bache.**

Gosod panel solar ar raddfa ddomestig wedi'i osod ar y ddaear.

Ystyriodd yr aelodau y cais a dyfarnu ei fod yn dderbyniol o ran cynllunio. Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd na ddylid codi unrhyw wrthwynebiad i'r cais hwn.

Cytunodd pawb

**Planning Applications.**

**03/2020/0357 Bryn Goleu, Geufron.**

Alterations to garage building to form a holiday unit, installation of a package treatment plant and associated works.

Members considered the application and adjudged that it was acceptable in planning terms.

It was proposed, seconded and resolved that no objections be raised relating to this application.

All agreed.

**03/2020/0364 Green Villa, Green Lane.**

Painting of exterior walls and exterior wood work (Listed Building application).

Members consider the application and adjudged that it was acceptable in planning terms.

It was proposed, seconded and resolved that no objections be raised relating to this application.

All agreed.

**03/2020/0379 Ty Brethyn, Fron Bache.**

Installation of a domestic-scale ground mounted solar panel array.

Members considered the application and adjudged that it was acceptable in planning terms.

It was proposed, seconded and resolved that no objections be raised relating to this application.

All agreed.

**03/2020/0340 Tir oddi ar Ffordd y Ficerdy.**

Cais am Weithred Amrywio i ganiatáu trosglwyddo unedau fforddiadwy o leiniau 31 a 32 i leiniau 28 a 29 mewn cysylltiad â chaniatâd cynllunio 003/2016/0300.

Ystyriodd yr aelodau y cais a dyfarnu ei fod yn dderbyniol o ran cynllunio. Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd na ddylid codi unrhyw wrthwynebiad i'r cais hwn.  
Cytunodd pawb

**03/2020/0340 Land Off Vicarage Road.**

Application for Deed of Variation to allow for the transfer of affordable units from plots 31 and 32 to plots 28 and 29 in connection with planning permission 03/2016/0300.

Members considered the application and adjudged that it was acceptable in planning terms.  
It was proposed, seconded and resolved that no objections be raised relating to this application.  
All agreed.

**C/172/20**

**Tystysgrifau Penderfyniad**

Nid oedd unrhyw faterion i'w trafod dan yr eitem hon ar yr agenda.

**Certificates of Decision.**

There were no matters considered under this agenda item.

**C/173/20**

**Adroddiadau Clerc y Dref.**

C/173/20(a)

Datganiadau hygrychedd gwefan y sector cyhoeddus.

Ystyriodd yr aelodau adroddiad ar y camau a gymerwyd mewn perthynas â datganiad hygrychedd gwefan Cyngor y Dref.

Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd :-

- a) Cymeradwyo'r camau a gymerwyd ar y datganiad hygrychedd, a
- b) chydabod yn ffurfiol y cyfraniad a wnaed gan Mr Warren Davies, sy'n ymgymryd â'r gwaith ar y wefan yn rhad ac am ddim.

Cytunodd pawb.

**Town Clerk's Reports.**

Public sector website accessibility statements.

Members considered a report on the actions undertaken in respect of the Town Council's website accessibility statement.

It was proposed, seconded and resolved to: -

- a) Endorse the actions undertaken on the accessibility statement and
- b) formally acknowledge the contribution made by Mr Warren Davies, who undertakes the work on the website without any payment.

All agreed.

C/173/20(b)

Is-ddeddfau.

Ystyriodd yr aelodau adroddiad ar baratoi Is-ddeddf ar gyfer Sgwâr y Canmlwyddiant.

Yn dilyn gwelliant, cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd: -

Byelaws.

Members considered a report on the preparation of a Byelaw for Centenary Square.

Following an amendment, it was proposed, seconded and resolved to: -

- |  |   |
|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>a) gwneud is-ddeddf ar gyfer y man agored sy'n eiddo i Gyngor Tref Llangollen.</li> <li>b) cadarnhau trosglwyddo'r cyfrifoldeb am yr hen Gofeb Ryfel o Gyngor Sir Dinbych i Gyngor y Dref, neu yn y tymor byr ceisio cytundeb ysgrifenedig fel rhan-berchennog y safle nes iddo gael ei drosglwyddo i Gyngor y Dref cyn y bydd y broses hysbysu'n cychwyn.</li> <li>c) defnyddio hysbysiadau cosb sefydlog fel dull gorfodi gyda chytundeb ymlaen llaw gyda Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, fel y gellir rhoi pŵer swyddog awdurdodedig hefyd i Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu neu berson achrededig arall.</li> <li>d) ymgynghori ag asiantaethau eraill sy'n delio ag atal troseddi yn yr ardal a cheisio cytuno ar brotocolau gweithio.</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>a) make a byelaw for the open space owned by Llangollen Town Council.</li> <li>b) confirm the transfer of the former War Memorial from Denbighshire County Council to the Town Council, or in the short term seek an agreement in writing as a part owner of the site until such time as it is transferred to the town council before the process of notification begins.</li> <li>c) use fixed penalty notices as the method of enforcement with the prior agreement with Chief Constable for North Wales Police, so that the power of an authorised officer may also be exercised by a Police Community Support Officer or another accredited person.</li> <li>d) consult with other agencies dealing with enforcement in the area and seek to agree working protocols.</li> </ul> |
|--|---|

All agreed.

Cytunodd pawb.

C/173/20(c)

Cynllun adfer COFID-19.  
Ystyriodd yr aelodau'r effaith ariannol a gweithredol ar y Cyngor a'r ymateb i bandemig Cofid 19.  
Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd:-

- a) cydnabod effaith ariannol pandemig COFID-19 ar gyllid Cyngor y Dref.
- b) yn y tymor byr, cyfyngu gwariant i'r eitemau hynny a nodwyd yn asesiad risg y Cyngor, ac ymrwymadau cytundebol a chost a chyflenwadau wedi'u cyfeirio

COVID-19 recovery plan.  
Members considered the financial and operational impact on the Town Council and the response to Covid 19 pandemic. It was proposed, seconded and resolved to: -

- a) acknowledge the financial impact of the COVID-19 pandemic on Town Council finances,
- b) in the short term, restrict expenditure to those items identified in the Town Council risk assessment, contractual commitments and cost and supplies directed at recovery

at fesurau adfer sy'n ofynnol mewn ymateb i leddfu cyfyngiadau COFID-19.

- c) cymeradwyo'r cynllun gweithredu adferiad a'r asesiad risg, a
- d) chyfarwyddo Clerc y Dref i roi'r camau ar waith ar unwaith.

Cytunodd pawb.

#### **Gohebiaeth.**

##### **Cadw'r Curiad/Keep The Beats**

Gofyn am gefnogaeth i'n helpu i godi'r £10,000 o bunnoedd sydd eu hangen arnom i greu clinig Cardioleg Cofid-19 symudol i helpu i adfer clinigau cardioleg yn ystod pandemig cofid-19.

#### **Gweithredu.**

Cynghori nad yw sefyllfa ariannol Cyngor y Dref yn caniatáu cyfraniad.

##### **Gofal Canser Tenovus - Helpwch i Roi Gobaith**

Gofyn am gefnogaeth i ariannu eu Llinell Gymorth rad ac am ddim (0808 808 1010) yn ystod pandemig cofid-19.

#### **Gweithredu.**

Cynghori nad yw sefyllfa ariannol Cyngor y Dref yn caniatáu cyfraniad.

Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd nodi'r eitemau gohebiaeth, a gweithredu'r camau a nodwyd. Cytunodd pawb.

measures required in response to the easing of COVID-19 restrictions.

- c) approve the recovery action plan and risk assessment and,
- d) instruct the Town Clerk to implement the actions immediately.

All agreed.

#### **Correspondence.**

##### **Keep The Beats**

Request of support to help us raise the £10,000 pounds we need to create a mobile Covid-19 Cardiology clinic to help reinstate cardiology clinics during the covid-19 pandemic.

#### **Action.**

Advise that Town Council's financial position prevents any contribution.

##### **Tenovus Cancer Care - Help Give Hope**

Request of support to fund its free Support Line (0808 808 1010) during the covid-19 pandemic.

#### **Action.**

Advise that Town Councils financial position prevents any contribution.

It was proposed, seconded and resolved that the items of correspondence be noted, and the identified actions be implemented. All agreed.

**C/174/20**  
C/174/20(a)

#### **Adroddiadau i'r Cyngor Tref.**

Cittaslow Rhyngwladol. Anerchodd y Cynghorydd Cheminais yr Aelodau ynghylch y cyfarfod rhithwir diweddar yr oedd wedi'i fynychu o Bwyllgor Cydlynu Rhyngwladol Cittaslow. Gwnaeth yr ystod

#### **Reports to Town Council.**

Cittaslow International. Cllr Cheminais addressed the meeting regarding the recent virtual meeting he had attended of the Cittaslow International Coordinating Committee. He had been impressed by the



ddaearyddol o drefi a oedd yn bresennol argraff arno, gyda sawl un o Ewrop, Awstralia, Tsieina, Tiwnisia ac India. Fel yr holl ardaloedd eraill, gofynnwyd i'r Cynghorydd Cheminais roi crynodeb byr o weithgareddau'r dref, ac fe soniodd am y wefan newydd, y cysylltiadau cymunedol a oedd wedi'u sefydlu a rhoddodd gyflwyniad i'r amrywiaeth o weithgareddau yr oedd y dref yn eu cynnig. Aeth y cyfarfod ymlaen i gwmpasu ymateb COVID-19, ac awgrymwyd y gallai Cittaslow Rhyngwladol gefnogi trefi unigol i edrych ar faterion adfer posibl, unwaith y bydd y pandemig drosodd. Yn benodol, roedd yna elfennau allweddol yn ymwneud â chrefftau, twristiaeth ac ymgysylltu ag ieuenctid a allai fod yn berthnasol iawn yn ei farn ef. Roedd cyfleoedd i fusnesau mewn trefi unigol ddod yn rhan o Farchnad Cittaslow, a fyddai'n caniatáu hyrwyddo nwyddau a gwasanaethau yn rhyngwladol ar y gwefannau am ffi gymedrol. Elfen arall oedd hyrwyddo llwybrau twristiaeth ar becynnau twristiaeth iechyd cyffredinol fel rhan o "Profiad Twristiaeth".

Gan iddo arfer gweithio ym myd addysg, roedd gan y Cynghorydd Cheminas ddiddordeb mawr mewn papur a gyflwynwyd ar ymgysylltu ag ieuenctid. Unwaith eto, credai y gallai fod lle i ddefnyddio hyn i feithrin mwy o ymgysylltiad â phobl ifanc yn y gymuned.

C/174/20(b)

Cyngor Sir Ddinbych.  
Anerchodd y Cynghorydd Sir, Graham Timms y cyfarfod gan ganolbwyntio ar y gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnal ar hyn o bryd mewn ysgolion cyn i'r disgyblion ddychwelyd i'r ysgol, boed hynny ond am bedair wythnos, o 29 Mehefin. Yn amlwg, nid gorfodol

geographic range of towns in attendance with several from Europe, Australia, China, Tunisia and India. In common with all other areas, Cllr Cheminais was asked to give a brief summary of the activities of the town which he did, advising them of the new website, the community links that had been established and an introduction to the diversity of activities that the town had to offer. The meeting went on to cover COVID-19 response and it was implied that the Cittaslow International may be able to support individual towns to look at potential recovery issues once the pandemic is over. In particular there were key elements relating to artisan crafts, tourism and youth engagement which he felt could be very relevant . There were opportunities for businesses within individual towns to become part of the Cittaslow Marketplace which would allow international promotion of goods and services on the websites for a modest fee. Another element was the promotion of tourist trails on general health tourist packages as part of "Experience Tourism".

Having been an educator, Cllr Cheminas was very interested in a paper that had been presented on youth engagement. Again, he thought there could be scope to use this to foster more engagement with young people in the community.

Denbighshire County Council.  
County Councillor Graham Timms addressed the meeting and focussed on the activities that were currently being undertaken in schools in advance of pupils returning to school, all be it for four weeks, from the 29<sup>th</sup> June. Clearly this was not compulsory and County

mo hyn, ac roedd swyddogion y Cyngor Sir wedi cysylltu â phob rhiant i weld faint oedd yn bwriadu gadael i'w plant ddychwelyd i'r ysgol. Nodwyd bod rhwng 60% a 70% yn bwriadu gwneud hyn. Byddai ymbellhau cymdeithasol yn bwysig, a byddai'r ystafelloedd dosbarth yn gyfyngedig i 6 i 8 o ddisgyblion mewn grwpiau clwstwr. Byddent yn bresennol ar wahanol ddyddiau yn ystod yr wythnos, unwaith eto er mwyn lleihau'r canlyniadau posibl o ledaenu'r feirws. Pwysleisiodd y Cyngorydd Timms bod pob athro wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi cynigion i ganiatáu i blant ddychwelyd i ryw fath o addysg cyn gwyliau'r Haf. Problem sylweddol arall a wynebai'r Cyngor Sir oedd cludo disgyblion yn ôl a blaen i'r ysgol. Dim ond 12 o ddisgyblion fyddai'n gallu teithio mewn bws cyffredin ei faint os am ystyried cyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol. Roedd hyn yn amlwg yn mynd i fod yn broblem nid yn unig wrth ddarparu digon o fysiau ac yn enwedig o ran y rhai sy'n cael eu rhedeg fel rhan o wasanaethau rheolaidd. O'r herwydd, rhagwelwyd y byddai mwy o draffig hefyd o amgylch adeiladau ysgolion. Dywedodd y Cyngorydd Timms hefyd fod CSDd yn dal i aros am benderfyniad ar y cyllid posibl i gefnogi mesurau ymbellhau cymdeithasol COVID-19 yn Llangollen ac addawodd adrodd ar hyn cyn gynted ag y byddai'r penderfyniad wedi'i wneud. Yn olaf, er nad oedd o fewn ffiniau'r Dref, cynghorodd yr Aelodau o'r pwysau a roddwyd arno ef a'r Cyngorydd Mile oherwydd y penderfyniad i weithredu terfyn cyflymder 40mya ar Fwlch yr Oernant.

Council officers had contacted all parents to see how many would be intending to allow their children to return to school and there was an identified uptake of between 60% to 70% . Social distancing would be important, and the classrooms would be limited to 6 to 8 pupils in cluster groups. They would be in attendance on different days during the week, again to reduce the potential consequences of potential spread. Cllr Timms wished to stress that all teachers were fully committed to supporting proposals to allow children to return to some form of education prior to the summer break. Another significant problem which faced the County Council was the transport of pupils to and from school. The average coach would only be able to take 12 pupils given the limitations of social distancing. This was clearly going to be a problem not only in the provision of enough coaches and in particularly in respect of those run as part of a scheduled service. Therefore, it was anticipated that there would also be increased traffic around schools' premises. Cllr Timms also advised that DCC were still awaiting decision on the potential funding to support COVID-19 social distancing measures in Llangollen and promised to report on this soon as the decision was made . Finally, whilst not within the boundaries of the Town, he advised Members of the pressure that both he and Cllr Mile had encountered over the decision to implement a 40mph speed limit on the Horseshoe Pass.

C/174/20(c)

Ymddiriedolaeth John Mathews.  
Dywedodd y Cyngorydd Grindley wrth y cyfarfod ei bod wedi mynychu CCB Elusen John Matthews a'i bod

John Mathews Trust .  
Cllr Grindley advised the meeting that she had attended the AGM of the John Matthews Charity and had been

wedi'i phenodi'n Gadeirydd. Roedd hi'n falch o adrodd bod chwe chais wedi cael cyfanswm o £4,100 o gymorth grant. Mynegodd mor foddhaol oedd gallu cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu huchelgeisiau trwy ddarparu symiau cymharol fach o gymorth ariannol. Anogodd y Cynghorydd Grindley ei chyd-Aelodau i sôn wrth eraill am botensial y gronfa hon. Llongyfarchodd yr Aelodau'r Cynghorydd Grindley ar gael ei phenodi'n Gadeirydd.

appointed Chair. She was pleased to report that six applications had been granted totalling £4,100 of grant assistance. She expressed how satisfying it was to be able to support youngsters to achieve their ambitions through the provision of relatively small amounts of financial aid. Cllr Grindley urged fellow Members to advise individuals of the potential of this fund. Members congratulated Cllr Grindley on her appointment as Chair.

**Gan nad oedd unrhyw eitemau pellach, daeth y cyfarfod i ben am 7.26 y.h.**

**There being no further items the meeting closed at 7.26 pm**